Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las
# Heol Walters
# Llansamlet
# Abertawe
# SA7 9RW

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las ym mhentref Llansamlet ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Abertawe. Mae 482 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 70 oed meithrin rhan amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 17 dosbarth, gan gynnwys un dosbarth oed cymysg a dau ddosbarth meithrin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn llawer yn is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae 10% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 22% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2014 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar sy’n hyrwyddo Cymreictod a datblygiad personol disgyblion yn llwyddiannus.  O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn hapus i’w mynychu. Yn ystod eu cyfnod yno, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda.  Mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac yn cydweithio’n llwyddiannus â’u cyfoedion, gan gynnig cymorth i’w gilydd pan fo angen. Maent yn canolbwyntio ar eu tasgau am gyfnodau estynedig ac yn cyfrannu’n werthfawr i wersi a phrofiadau dysgu.

Mae’r athrawon yn ystyried barn disgyblion yn briodol wrth gynllunio themâu diddorol iddynt ac yn sicrhau bod y gweithgareddau a ddarperir yn gyson dda ar draws y dosbarthiadau.  Mae’r tasgau’n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).  Mae staff yn darparu cefnogaeth ac ymyraethau effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ogystal â rhai sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae’r pennaeth yn darparu arweiniad clir i waith yr ysgol ac yn rhannu ei weledigaeth yn llwyddiannus ag eraill.  Mae’r uwch dîm rheoli yn cyfrannu’n werthfawr i hyn trwy ddadansoddi data ac arwain agweddau penodol o waith yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

R1 Mireinio prosesau monitro a gweithredu'n fwy effeithiol ar y canfyddiadau

R2 Sicrhau cyfleoedd cyson dda i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion i safon uwch

R3 Rhannu nodweddion gorau'r addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n bwrpasol wrth siarad gyda chyfoedion ac oedolion. Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn yn fuan ar ôl cychwyn yn y dosbarth meithrin. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn gwrando'n dda ar gyflwyniadau dosbarth ac yn sgwrsio a thrafod eu gwaith yn frwdfrydig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn gywir yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar safbwyntiau ei gilydd ac yn mynegi eu barn yn glir. Ar frig yr ysgol, mae medrau trawsieithu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gynyddol lwyddiannus ac maent yn ymestyn eu brawddegau'n ddiddorol mewn trafodaethau aeddfed.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau ac yn dechrau adeiladu geiriau'n hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn fedrus, yn gywir ac yn rhugl. Maent yn dangos diddordeb yn eu llyfrau ac yn trafod eu cynnwys yn aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Mae llawer yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi yn gywir er mwyn cyfleu'r stori yn effeithiol. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn echdynnu ffeithiau perthnasol am adar wrth ymchwilio i wybodaeth.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gan sillafu'r mwyafrif o eiriau cyffredin yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn effeithiol. Mae llawer yn amrywio brawddegau, atalnodi'n briodol ac yn dechrau treiglo'n gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i Brif Weinidog Cymru i gwyno am sbwriel ym Mae Abertawe. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n fedrus yn y ddwy iaith. Maent yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn briodol, er enghraifft wrth greu ymson yn seiliedig ar daith y Mimosa i Batagonia. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio ystod eang o ansoddeiriau, cymariaethau a throsiadau i gyfoethogi eu gwaith o fewn eu gwersi iaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso'u medrau i'r un safon yn gyson wrth ysgrifennu'n annibynnol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn meddu ar y gallu i gyfrifo a datrys problemau yn eu pen yn hyderus yn ystod sesiynau sionc dyddiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau'n fedrus mewn amrywiaeth o feysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio unedau ansafonol i amcangyfrif ac i fesur olion traed cymeriadau

stori. Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf y disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau mathemategol yn briodol mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn addasu pwysau cynhwysion yn gywir mewn rysáit bara ar gyfer gwahanol nifer o bobl. Er hyn, nid yw disgyblion bob amser yn defnyddio'u medrau rhifedd ar yr un lefel uchel mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd ag y maent mewn gwersi mathemateg.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau meddwl a chorfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus wrth gynllunio a chreu pont yn yr ardal allanol. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig, offer recordio a theganau rhaglenadwy yn hyderus at wahanol ddibenion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn didoli nodweddion dail a brigau i ddiagram Venn gan ddefnyddio llechi electronig yn effeithiol iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau, cynhyrchu cyflwyniadau aml gyfrwng, ffurfio graffiau ac ymchwilio ar y rhyngrwyd yn gynyddol hyderus ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron bob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi mewn achos o bryder. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i fyw yn iach ac mae llawer yn gwneud dewisiadau da mewn perthynas â bwyd a gweithgarwch corfforol. Mae'r rhan fwyaf yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth eang o weithgarwch corfforol mae'r ysgol yn ei gynnig ac maent yn ymrwymo'n frwdfrydig i weithgareddau allgyrsiol fel dawns, rhedeg trawsgwlad a rygbi. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu eu medrau corfforol a chymdeithasol. Mae bron bob un yn deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein ac mae'r arweinwyr digidol yn pwysleisio pwysigrwydd e-ddiogelwch yn gyson i'w cyfoedion.

Mae'r disgyblion sy'n rhan o bwyllgorau amrywiol yr ysgol yn datblygu eu cyfrifoldebau'n dda. Maent yn cyfrannu'n effeithiol i holl gynghorau'r ysgol ac yn ymfalchïo yn y cyfle i ddatblygu eu medrau arwain. Er enghraifft, mae brwdfrydedd a balchder y Criw Siarter Iaith yn effeithio'n llwyddiannus iawn ar barodrwydd holl ddisgyblion yr ysgol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn gyson. Mae'r ystod eang o gynghorau eraill fel y cyngor eco, y cyngor hawliau plant a'r cyngor ysgol yn cynrychioli barn y disgyblion yn effeithiol ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau pwrpasol am agweddau o fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor hawliau wedi cyflwyno Hawl y Mis yn llwyddiannus drwy'r ysgol fel rhan o gynllun hawliau'r plentyn. Mae'r disgyblion hyn hefyd yn weithredol trwy gefnogi amrywiaeth o elusennau, gan gynnwys cronfa fwyd leol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach. Mae bron pob un disgybl yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol a'r gymuned ehangach. Maent yn barod iawn i gefnogi'r gymuned leol trwy berfformio a chymryd rhan mewn amrywiaeth o achlysuron arbennig.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn garedig ac yn ofalgar o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymagweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn barod iawn i drafod eu gwaith a'u llwyddiannau gydag oedolion.

Maent yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion, gan gynnig cymorth i'w gilydd pan fo angen. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos medrau cydweithio datblygiadol fesul pâr ac o fewn eu grwpiau. Maent yn canolbwyntio ar eu tasgau am gyfnodau estynedig ac yn cyfrannu'n werthfawr i wersi a phrofiadau dysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth gynyddol o werthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Mae eu gwybodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang ac am ddiwylliannau eraill yn datblygu'n fwriadus drwy waith y cyngor eco a gwaith o fewn y dosbarth, er enghraifft trwy ddysgu am bobl, crefydd a diwylliant India.

Er bod yr ysgol yn cydweithio'n agos gyda disgyblion, rhieni a'r swyddog lles i wella presenoldeb disgyblion, mae canran presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r berthynas waith dda rhwng y disgyblion a'r staff yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r staff yn creu awyrgylch ddysgu gynhyrchiol sy'n ymgorffori llais y disgybl yn bwrpasol o fewn y profiadau dysgu amrywiol. Mae athrawon yn cyflwyno syniadau a themâu newydd yn effeithiol ac yn amrywio'u dulliau dysgu yn briodol yn ôl yr angen. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig sylwadau llafar ac ysgrifenedig buddiol i ddisgyblion er mwyn cynnig y ffordd ymlaen i wella'u gwaith. Mae'r staff yn holi'r disgyblion yn dreiddgar ac yn darparu cyfleoedd addas iddynt gyflawni gwaith o safon dda ac i wella hyn eu hunain mewn sesiynau adfyfyrio. Er hyn, nid yw disgwyliadau athrawon pob tro'n ddigon uchelgeisiol er mwyn herio disgyblion yn llawn.

Mae medrau llythrennedd disgyblion yn cael eu datblygu'n gadarn ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddewis yr arddull ysgrifennu fwyaf priodol i gofnodi'u gwaith. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n fwy ymestynnol ac i gymhwyso'u medrau i'r un safon uchel tu allan i'w gwersi iaith. Mae'r cynllun gloywi iaith yn cael effaith dda ar fedrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae'n galluogi'r disgyblion i ymarfer patrymau iaith cywir a chyfoethogi eu geirfa yn y Gymraeg. Enghraifft dda o hyn yw pan fydd disgyblion yn disgrifio eu meddyliau creadigol yn fedrus tra'n cydweithio i adeiladu tractor o wahanol offer i gario gwrthrych yn ddiogel o un cae i'r llall fel rhan o'u thema 'O'r Fferm i'r Fforc'. Mae'r athrawon yn cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion yn bwrpasol; er enghraifft, maent yn hyrwyddo medrau darllen grŵp o ddisgyblion trwy gynnal clwb darllen ar y thema pêl-droed.

Mae athrawon yn cynllunio'n fedrus ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion trwy amrywiaeth o brofiadau dysgu buddiol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus er mwyn datblygu eu medrau ymhellach wrth symud drwy'r ysgol. Mae athrawon yn cynllunio ystod addas o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau bob tro yn eu herio i ddefnyddio'r medrau hyn i'r un safon uchel a welir mewn gwersi mathemateg.

Fel rhan o'u gwaith arloesi, mae'r athrawon yn datblygu medrau creadigol o fewn dyniaethau ac wedi rhannu arfer dda gydag ysgolion eraill. Mae'r ysgol wrthi'n addasu cynlluniau ar waelod cyfnod allweddol 2 i adlewyrchu egwyddorion y cyfnod

sylfaen. Mae athrawon yn darparu amrywiaeth o heriau diddorol a chyfoethog yn yr hafanau ac yn yr ardaloedd dysgu allanol er mwyn i'r disgyblion gymhwyso eu medrau ymhellach. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn defnyddio eu medrau arian yn bwrpasol wrth iddynt brynu ffrwythau a llysiau ffres o Siop y Fferm.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog am Gymru er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn falch o'u Cymreictod. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn profiadau go iawn, fel Gŵyl Twrw Tawe a chystadlu'n llwyddiannus mewn amrywiaeth dda o weithgareddau cenedlaethol. Mae'r athrawon yn trefnu ymweliad preswyl yng ngogledd Cymru yn flynyddol fel rhan o'r thema 'Braint yw bod yn Gymro' gan ddwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol o hanes a diwylliant Cymru.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r systemau cadarn ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn sicrhau bod staff yn adnabod disgyblion a grwpiau penodol sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar. Maent yn darparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer y disgyblion hyn ac yn monitro effaith y gefnogaeth yn rheolaidd ac yn bwrpasol. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol sy'n cynnwys targedau addas a mesuradwy. Mae disgyblion a rhieni yn cyfrannu'n bwrpasol at osod ac adolygu targedau. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn darparu ymyraethau sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn magu hyder ac yn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o fywyd ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae staff yn gwneud defnydd da o'u cefnogaeth er mwyn gwella cynnydd a lles disgyblion a'u teuluoedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae staff yn sicrhau adnoddau ychwanegol i gefnogi disgyblion ag ystod o anghenion fel eu bod yn llwyddo ac yn barod i'r cam nesaf yn eu datblygiad.

Mae arweinwyr ac athrawon yn meithrin cysylltiadau cadarn gyda'r rhieni er mwyn datblygu gallu rhieni i gynorthwyo eu plant eu hunain. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau rhieni gwerthfawr sy'n gwella dealltwriaeth y rhieni o strategaethau darllen, sut i wella medrau rhifedd pen, a materion cyfoes fel e-ddiogelwch. Mae'r athrawon yn danfon llyfrau gwaith y disgyblion adref bob hanner tymor er mwyn i'r rhieni weld a thrafod datblygiad gwaith eu plant. Mae wythnos "Dewch â'ch rhiant i'r ysgol" yn llwyddiannus trwy godi ymwybyddiaeth y rhieni o sut mae'r athrawon yn addysgu agweddau o'r cwricwlwm. Mae'r rhieni yn derbyn côd QR yn flynyddol sy'n eu galluogi i weld cynnydd eu plant ers iddynt ymuno â'r ysgol ynghyd â samplau o'u gwaith ar hyd y daith. O ganlyniad, mae rhieni'n chwarae rôl flaenllaw yn addysg eu plant.

Mae athrawon yn cynllunio'r addysgu o amgylch hawliau'r plentyn yn drwyadl. Mae'r hawliau yn cael eu hatgyfnerthu'n aml yn y gwersi ac mewn arddangosfeydd o amgylch yr ysgol. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i ddeall eu hawliau ar sut i fod yn ddinasyddion da, teg a chyfiawn. Mae'r ysgol yn darparu cynllun addysg bersonol a chymdeithasol eang sy'n meithrin agweddau fel parch, goddefgarwch a chydraddoldeb yn effeithiol. Mae'r ysgol yn trefnu ymwelwyr ac ymweliadau addysgol cyfoethog sy'n cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd

meithrin agweddau cymdeithasol cadarn. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys gweithgareddau am berthnasoedd iach a chamddefnyddio sylweddau. Mae'n dylanwadu'n bositif ar allu'r disgyblion i gydweithio, i ddangos parch at safbwyntiau eraill, ac i godi eu hymwybyddiaeth o beryglon cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau chwaraeon a phrofiadau sy'n hyrwyddo iechyd a ffitrwydd yn dda. Cynhelir amryw o glybiau'r celfyddydau a chlybiau academaidd hefyd sy'n cynnwys clwb ffotograffig, gwyddbwyll a chlwb jiwdo. Canlyniad hyn yw sicrhau cyfleoedd i bob disgybl fynychu, datblygu eu medrau cymdeithasol a hybu eu hunanhyder. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn weithgar iawn yn yr ardal leol a'r gymuned ehangach. Mae'r disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned drwy ymweld a pherfformio i wahanol gynulleidfaoedd yn rheolaidd, fel yn yr eglwys leol neu yng nghartrefi'r henoed. Mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau preswyl gwerthfawr i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i wahanol rannau o Gymru a thu hwnt sy'n meithrin eu chwilfrydedd a'u Cymreictod. Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson a phriodol i fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli a gwasanaethau dosbarth, er enghraifft drwy wrando ar, ac ymateb i, amrywiol storïau crefyddol a moesol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir i waith yr ysgol sy'n seiliedig ar ddarparu cwricwlwm cyfoethog a chodi safonau disgyblion. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. O dan arweiniad y pennaeth, mae'r uwch dîm rheoli yn datblygu'n arweinwyr hyderus. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i ddadansoddi data ac i arwain agweddau penodol o waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r modd maent wedi gosod strategaethau cadarn ar waith i godi safonau llafar Cymraeg y disgyblion ac i ddarparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r uwch dîm rheoli yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro cynnydd er mwyn cynnal a chodi safonau. O ganlyniad, mae gan staff adnabyddiaeth dda o gyflawniad disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o safonau a chyflawniad disgyblion. Maent yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr gan y pennaeth am fywyd a gwaith yr ysgol sy'n atgyfnerthu hyn yn dda. Mae aelodau'r is-bwyllgorau yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at arwain cyfeiriad strategol i'r ysgol, a hynny trwy weithgareddau monitro buddiol. Ar y cyd â'r rhieni, maent wedi mynychu sesiynau dosbarth er mwyn ehangu eu gwybodaeth am strategaethau darllen a rhifedd. Mae'r llywodraethwyr yn cynnal teithiau dysgu ac yn siarad â disgyblion a staff yn rheolaidd. Mae hyn oll yn datblygu eu dealltwriaeth o waith yr ysgol yn briodol, ac yn eu galluogi i herio'r ysgol, er enghraifft i wella safonau darllen.

Yn gyffredinol, mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn galluogi arweinwyr i adnabod llawer o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent yn ystyried barn rhanddeiliaid ynghyd â chasglu tystiolaeth eang a synhwyrol. Mae'r arweinwyr yn arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion yn rheolaidd er mwyn casglu tystiolaeth uniongyrchol,

ddefnyddiol.  Ar y cyfan, mae’r adroddiadau sy’n deillio o weithgareddau monitro yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn briodol.  Fodd bynnag, nid yw ffocws y monitro bob amser yn ddigon miniog.  O ganlyniad, nid yw ychydig o faterion, fel diffyg cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd a llythrennedd i lefel uchel yn rheolaidd, a’r anghysondebau yn yr addysgu, yn cael eu hamlygu’n ddigon clir.

Ar y cyfan, mae’r arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth o’r broses hunanarfarnu yn briodol er mwyn creu blaenoriaethau addas yn y cynllun datblygu.  Mae’r cynllun yn cynnwys nifer pwrpasol o flaenoriaethau synhwyrol, sy’n canolbwyntio’n glir ar wella safonau disgyblion ymhellach.  Caiff y cynllun ei werthuso’n rheolaidd gan arweinwyr a staff yr ysgol er mwyn mesur cynnydd.

Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol ar waith i athrawon a chynorthwywyr sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu.  Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd da i ddatblygu’n broffesiynol.  Maent yn arwain nifer o brosiectau cwricwlaidd ac yn cydweithio’n llwyddiannus gyda nifer helaeth o ysgolion y clwstwr a thu hwnt.  Mae’r cydweithio hwn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar, mathemateg a TGCh disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn gadarn ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant.  Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion hyn yn cyflawni cystal â’u cyfoedion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2018